Yr Athro Julia Buckingham CBE,

Cadeirydd Grŵp Strategaeth y Concordat

03 Chwefror 2021

Llythyr Ymrwymiad i'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr

Rwyf i, yr Athro Cara Aitchison, Llywydd ac Is-Ganghellor Prifysgol Metropolitan Caerdydd, yn cadarnhau ein hymrwymiad i'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr.

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn llwyr gefnogi Egwyddorion y Concordat diwygiedig hwn ac rydym yn bwriadu cynnal ein rhwymedigaethau a'n cyfrifoldebau fel llofnodwr.

Fel prifysgol sy'n cael ei gyrru gan werthoedd, mae egwyddorion y Concordat yn ganolog i'n cenhadaeth. Mae ein cynllun Strategol Sefydliadol 2017/18 – 2022/23 yn cydnabod yn benodol ein staff a'n myfyrwyr fel ein hasedau mwyaf gwerthfawr. Rydym yn cydnabod, drwy fuddsoddi yn ein hymchwilwyr i greu amgylchedd bywiog, cefnogol a chynhwysol lle gall unigolion gyrraedd eu llawn botensial, y byddwn yn ei dro yn ffynnu fel Prifysgol gan ddarparu ymchwil, arloesedd ac addysgu rhagorol, effaith uchel.

Rydym yn cytuno i weithio ar y cyd ac ymgysylltu â mentrau i fynd i'r afael â heriau systemig wrth symud ymlaen tuag at system ymchwil yn y DU lle mae ymchwilwyr yn gweithio mewn amgylcheddau iach a chefnogol. Rydym yn cytuno y dylai ymchwilwyr gael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi am eu cyfraniadau mewn ymchwil a thu hwnt, eu cefnogi yn eu datblygiad proffesiynol a gyrfaol, a'u harfogi a'u grymuso i lwyddo yn eu gyrfaoedd dewisol.

Yn gywir

Yr athro Cara Aitchison

MA (Anrh) PgDRLP Cert Ed MA PhD FAcSS FRGS FHEA FLSW

Llywydd ac Is-Ganghellor